

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion

# Dyfodol gwasanaethau i oedolion ag anabledd dysgu yng Ngwynedd



Yn ystod yr haf a'r hydref y llynedd, buom yn trafod gyda defnyddwyr ein gwasanaethau anabledd dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr, gan holi eich barn ar y math o newidiadau y bydd angen eu gwneud yn y dyfodol. Yn ogystal ag anfon holiadur atoch, buom yn cynnal cyfarfodydd mewn gwahanol ardaloedd i roi cyfle ichi ddweud eich barn.

Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel

• 01286 682888 • [gcmc@gwynedd.llyw.cymru](mailto:gcmc@gwynedd.llyw.cymru)

• [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)



# Dyfodol gwasanaethau i oedolion ag anabledd dysgu yng Ngwynedd

Fel yr ydym wedi esbonio eisoes, mae newid yn anochel am sawl rheswm:

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a ddaeth i rym ym mis Ebrill eleni, yn newid y ffordd o ymateb i anghenion gofal a chymorth. Mae'r Ddeddf yn gwneud yr unigolion a'u hanghenion yn ganolbwyt eu gofal a'u cymorth ac yn rhoi hawl iddyn nhw reoli a lleisio'u barn am ganlyniadau'r targedau personol sy'n bwysig iddyn nhw.
- Mae'r syniad o lesiant yn ganolog i'r Ddeddf - sef helpu pobl i sicrhau'r llesiant gorau a phwrpas iddyn nhw eu hunain.
- Mae'r Ddeddf yn ceisio newid cydbwysedd gofal a chymorth gan ganolbwytio ar atal ac ymyrryd yn gynharach. Y nod yw cynyddu gwasanaeth ataliol yn y gymuned fel nad yw anghenion yn gwaethyg i lefel argyfyngus. Golyga hyn ddefnyddio'r adnoddau sydd gan unigolion eu hunain, eu teuluoedd a'r gymuned.
- Yr angen am gydweithrediad - un o amcanion allweddol y Ddeddf yw sicrhau bod sefydliadau yn gweithio mewn partneriaeth gadarn gyda'i gilydd ac yn cydweithio gyda phobl sydd angen gofal a/neu gymorth.
- Mae'r Ddeddf yn gofyn am drawsnewid y ffordd arferol o ddarparu gwasanaeth i ddull sy'n seiliedig ar gydweithio ac ar berthynas gyfartal rhwng ymarferwyr a phobl sydd angen gofal.
- Yr hyn sy'n gwneud y dasg yn fwy anodd yw y bydd yn rhaid cyflawni'r newidiadau ar adeg pan mae'r Cyngor yn cael llai o arian gan y Llywodraeth. Er mwyn diogelu'n gwasanaethau felly, fe fydd yn rhaid i'r Cyngor wario'i arian yn y ffordd orau.



O'r holiaduron a anfonwyd allan, cafodd 25 eu dychwelyd. Daeth 25 o bobl hefyd i gyfarfodydd a drefnwyd ym Mhwllheli, Porthmadog, Dolgellau, Caernarfon, Bethesda a Bangor. Yn ogystal â chael eich barn, roeddem hefyd yn awyddus i glywed unrhyw syniadau a oedd gennych am newidiadau eraill yn y dyfodol.

Mae'r pwyntiau allweddol a godwyd gennych yn cynnwys:

- Dylai unrhyw newidiadau fod yn rhai graddol, ac mae'n rhaid sicrhau cysondeb gofal
- Mae angen rhannu gwybodaeth yn well rhwng y Cyngor a'r defnyddwyr
- Mae'n bwysig diogelu cyfleoedd i gymdeithasu, gweithio a dysgu sgiliau bywyd
- Gall trafnidiaeth fod yn broblem, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Rydym wedi crynhoi'r hyn a nodwyd ar eich ffurflenni a'r hyn a ddywedwyd gan y rhai a gymerodd ran yn y cyfarfodydd trafod. Rhoddir sylw llawnach i'r materion a godwyd yn [www.gwynedd.llyw.cymru/gwasanaethauoedolion](http://www.gwynedd.llyw.cymru/gwasanaethauoedolion).

Os hoffech gael copi papur o'r dogfennau hyn gallwch wneud cais i Ann Eleri Roberts, Cymhorthyydd Gweinyddol ar 01286 679975. Mae fersiwn hawdd ei ddarllen o'r dogfennau hefyd ar gael.



# Dyfodol gwasanaethau i oedolion ag anabledd dysgu yng Ngwynedd

## Rhai o'r newidiadau sydd ar waith ...

Wrth inni weithio tuag at y nod o alluogi pobl i fyw mor annibynnol â phosibl gyda'r gefnogaeth angenrheidiol, mae llawer o newidiadau eisoes ar waith. Dyma gipolwg ar dair enghraifft o'r hyn sy'n digwydd:

### PANTYR EITHIN

Mae cynllun tai arloesol yn Harlech yn galluogi unigolion ag anabledd dysgu i fod yn annibynnol am y tro cyntaf.

Cynllun tai â chymorth yw Pant yr Eithin, sydd wedi ei ddatblygu ar safle hen gartref gofal. Mae'n cynnwys saith cartref pwrrpasol i oedolion ag anabledd dysgu.

Mae'r tenantiaid yn byw yn annibynnol yno, ond mae cymorth a chefnogaeth wrth law pan fydd angen.

Un o'r tenantiaid newydd yw gŵr ifanc, a arferai fyw gyda gofalwyr 24 awr y dydd fel rhan o'r Cynllun Lleoli Oedolion o dan reolaeth Cyngor Gwynedd.

Dyweddodd ei weithwyr cymdeithasol fod Pant yr Eithin yn ddelfrydol ar ei gyfer.

*"Mae'r byngalo newydd yn Pant yr Eithin wedi ei alluogi i ennill annibyniaeth a gwneud ei benderfyniadau ei hun o ddydd i ddydd ond gyda chymorth wrth law pan fydd ei angen," meddai.*

*"Dyma'r tro cyntaf iddo fod wedi byw ar ei ben ei hun heb rannu cyfleusterau efo pobl eraill ac mae wedi rhoi iddo'r teimlad o greu ei gartref ei hun - rhywbeth sydd wedi rhoi boddhad mawr iddo."*

### CLWB Y DDRAIG

Mae Clwb y Ddraig yn mynd o nerth i nerth ym Meirionnydd ers iddo gael ei ffurfio yr haf diwethaf.

Dyna pryd y penderfynodd y Gwasanaethau Cymunedol Anabledd Dysgu newid eu ffordd o weithio a throi'n glwb bychan i chwech o unigolion.

Daw'r unigolion hyn at ei gilydd ar ddyddiau Sadwrn, ac maent yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau.

Mae'r rhain yn cynnwys paratoi pryd o fwyd iddyn nhw'u hunain ar ôl bod yn siopa am y cynhwysion, a chlwb cerdded er mwyn cadw'n heini. Mae clwb cinema hefyd lle mae'r aelodau'n gwneud eu popcorn eu hunain!

Dyweddodd Adrian sy'n mynchu'r clwb "Dwi'n mwynhau mynd i'r clwb yn fawr iawn. Dwi'n coginio yno, rydym hefyd yn ymarfer yn y parc yn Nolgellau. Rwyf hefyd yn cael amser i fod gyda fy ffrindiau".

# Dyfodol gwasanaethau i oedolion ag anabledd dysgu yng Ngwynedd

## EDRYCH YMLAEN AT ENNILL CYFLOG

Mae Gemma ar fin cychwyn ar swydd newydd ac yn edrych ymlaen at ennill cyflog iddi ei hun.

Mae tîm Anabledd Dysgu'r Cyngor yn llawenhau yn llwyddiant y cyn-ddisgybl 22 oed o Ysgol Pendalar a Choleg Glynllifon wrth iddi gael gwaith cyflogedig mewn tŷ bwyta yng Nghaernarfon.

Mae hi wedi cael profiad gwerthfawr yn y maes drwy weithio mewn caffi dri diwrnod yr wythnos ers 2014, yn ogystal â gwirfoddoli mewn siop elusen un bore'r wythnos.

Y bwriad yn wreiddiol oedd iddi gychwyn yn y tŷ bwyta trwy wirfoddoli i ddechrau, ond cafodd wybod yn ddiweddar y byddai hi'n cael ei chyflogi yno o'r cychwyn un.

"Mae hyn yn newyddion grêt i mi a dwi'n edrych ymlaen yn arw," meddai.



## Y camau nesaf

Mae'r ymateb a gawsom gennych wedi bod yn hynod werthfawr, gan ei fod wedi tynnu'n sylw at rai pryderon penodol.

Cytunwn yn llwyr â'r angen i reoli unrhyw newid yn ofalus ac ymrwymwn i wneud hyn. Byddwn hefyd yn cadw mewn cof y gweithgareddau sy'n cael eu gwerthfawrogi fwyaf gennych wrth gynllunio ar gyfer dyfodol ein gwasanaethau.

Un arall o'r negeseuon pwysicaf a ddaeth allan o'r trafodaethau hyn oedd yr angen am fwy o rannu gwybodaeth a gwell trafod rhwng y Cyngor a'r defnyddwyr. Gwelsom yn benodol pa mor werthfawr oedd y trafodaethau mewn grwpiau bach a gawsom yn y gwahanol gyfarfodydd, a'n bwriad yw cynnal rhagor ohonynt dros y flwyddyn nesaf, fel eich bod yn cael cyfle cyson i ddweud eich barn.

Rydym wedi trefnu nifer o gyfarfodydd yn ystod Awst er mwyn rhoi cyfle ichi ddweud eich barn a rhannu gwybodaeth gyda chi.

Nodir isod ddyddiadau a lleoliadau:

Lleoliad	Dyddiad	Amser	Mynychu ✓
Llyfrgell Blaenau Ffestiniog	01.08.16	2 - 4	
Canolfan Hamdden Dwyfor, Pwllheli	02.08.16	2 - 4	
Canolfan Hamdden Bro Dysynni, Tywyn	04.08.16	2 - 4	
Canolfan Hamdden Penllyn, Y Bala	05.08.16	10 - 12	
Canolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog	08.08.16	10-12	
Canolfan Byw'n lach a Gweithgareddau Dŵr Bangor	09.08.16	10-12	
Canolfan Hamdden Arfon, Caernarfon	23.08.16	10.30 - 12.30	

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion

# The future of services for adults with a learning disability in Gwynedd



During the summer and autumn of last year, we engaged with our service users with a learning disability, and their families and carers, to hear your views on the kind of changes that will need to be done in future. As well as sending a questionnaire to you all, we held meetings in different areas to give you an opportunity to have your say.

# The future of services for adults with a learning disability in Gwynedd

As we have already explained, change is inevitable for several reasons:

- The Social Services and Well-being Act (Wales) 2014, which came to force in April this year, requires us to change the way we respond to care and support needs. The Act places the individuals and their needs at the heart of their care and support, and gives them the right to control and to voice their opinion on the results of personal targets that are important to them.
- The concept of welfare is central to the Act – that is to help people ensure the best welfare and purpose for themselves.
- The Act seeks to change the balance of care and support with a focus on earlier prevention and intervention. The goal is to increase preventative services in the community so that needs do not escalate to a critical level. This means using the resources of the individuals themselves, their families and community.
- The need for collaboration - one of the key objectives of the Act is to ensure that organisations work together in robust partnership and work with people who need care and/or support.
- The Act requires a transformation of the usual means of service provision to an approach that is based on collaboration and an equal relationship between practitioners and people who need care.
- What makes the task more difficult is that the changes must be achieved at a time when the Council gets less money from the Government. Therefore, in order to safeguard our services, the Council will have to make the best use of its money.

Of the questionnaires that were sent out, 25 were returned. A total of 25 people also attended meetings organised in Pwllheli, Porthmadog, Dolgellau, Caernarfon, Bethesda and Bangor. As well as hearing your views, we were also eager to hear any ideas you might have for other changes in future.

The key points you raised include:

- Any changes introduced should be gradual, and consistency of care must be ensured
- There needs to be better sharing of information between the Council and service users
- It's important to safeguard opportunities for socialising, working and the learning of new skills
- Transport can be an issue, especially in rural areas

We have summarised what was noted on your forms and what was said by those taking part in the discussion groups, and the issues raised are addressed more fully at  
[www.gwynedd.llyw.cymru/gwasanaethauoedolion](http://www.gwynedd.llyw.cymru/gwasanaethauoedolion).

If you would like a paper copy of these documents you can request one from Ann Eleri Roberts, Administrative Assistant on 01286 679975, and there is an easy-read version of the documents also available.



# The future of services for adults with a learning disability in Gwynedd

## Some of the changes already taking place...

As we work towards the goal of enabling people to live as independently as possible with the necessary support, many changes have already been implemented. Here are three examples:

### PANTYR EITHIN

A pioneering housing scheme in Harlech is enabling individuals with learning disabilities to be independent for the first time.

Pant yr Eithin is a supported housing scheme, developed on the site of an old care home. It contains seven purpose-built homes for adults with a learning disability.

The tenants live independently there, but support is at hand when needed.

One of the new tenants is a young man, who used to live with carers 24 hours a day under an Adult Placement Scheme managed by Gwynedd Council.

His social worker said that Pant yr Eithin was ideal for him.

*“The new bungalow at Pant yr Eithin has enabled him to gain independence and make his own day-to-day decisions but with arm’s length support as and when he needs it,” she said.*

*“This is the first time for him to be living alone without sharing facilities with others and it has given him the sense of creating his own home – something which has given him great satisfaction.”*

### CLWB Y DDRAIG

Clwb y Ddraig is going from strength to strength in Meirionnydd since it was set up last summer.

The Learning Disability Community Service changed the way individuals were supported and formed a small club for six individuals.

These individuals meet on Saturdays and they enjoy a range of activities.

The activities include preparing a meal for themselves after shopping for the ingredients, and a walking club for keeping fit. There is also a cinema club where the members make their own popcorn!

Adrian who attends the club said “I enjoy going to the club. I cook there, we also exercise in the park in Dolgellau. I also have time to be with my friends”.



# The future of services for adults with a learning disability in Gwynedd

## LOOKING FORWARD TO EARNING

Gemma is about to start a new job and is looking forward eagerly to earning a wage for herself.

The Council's Learning Disability team are delighted with the success of the 22-year-old former Ysgol Pendalar and Coleg Glynllifon student in getting paid employment at a restaurant in Caernarfon.

Having worked at a cafe three days a week since 2014, as well as volunteering in a charity shop one morning a week, she is well equipped for her latest challenge.

The original intention was for her to start at the restaurant as a volunteer, but she has since heard that she will be employed from the beginning.

*"This is great news for me, and I'm really looking forward,"* she said.



## The next steps

The response we had from you has been invaluable, especially as it has highlighted some particular concerns.

We agree wholeheartedly with the need to manage any change carefully and we are committed to doing this. We will also keep in mind the activities that you value most as we plan for the future of our services.

Another key message, and one of the most important, to come out of these discussions was the need for better communication and sharing of information between the Council and service users. We also saw the value of small group discussions we had in the different meetings, and it is our intention to hold further meetings over the next year so that you can have your say on a regular basis.

Listed below are the dates and locations:

Location	Date	Time	Mynychu ✓
Blaenau Ffestiniog Library	01.08.16	2 - 4	
Dwyfor Leisure Centre, Pwllheli	02.08.16	2 - 4	
Bro Dysynni Leisure Centre, Tywyn	04.08.16	2 - 4	
Penllyn Leisure Centre, Y Bala	05.08.16	10 - 12	
Glaslyn Leisure Centre, Porthmadog	08.08.16	10-12	
Bangor Aquatics and Healthy Lifestyle Centre	09.08.16	10-12	
Arfon Leisure Centre, Caernarfon	23.08.16	10.30 - 12.30	